

Cofrestru â'r gymuned gynhwysol

Fe ddylech chi ddarllen y wybodaeth isod cyn llenwi ac anfon y ffurflen gofrestru ar-lein.

Mae tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru'n cefnogi ymchwilwyr iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio yng Nghymru i wneud cynnwys y cyhoedd yn rhan hanfodol o'u gwaith. Mae'r tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn cefnogi'r gymuned gynhwysol – aelodau o'r cyhoedd o ledled Cymru – i gymryd rhan weithredol mewn ymchwil. Ystyr **cymryd rhan weithredol** yw cyfle i gynnwys pobl fel eu bod nhw'n **gweithio gydag ymchwilwyr** i gynllunio, rheoli, cynnal a chyflwyno ymchwil, yn hytrach na bod yn wrthrychau ymchwil.

I wneud yn siŵr bod y gymuned mor gynrychioliadol a hygyrch â phosibl, rydyn ni'n cydnabod ei bod hi'n bosibl bod gan rai aelodau anghenion penodol neu anableddau a allai alw am gymorth ychwanegol. Fe fyddai'n ddefnyddiol pe gallech chi roi gwybod i ni am ofynion penodol yr hoffech chi i ni wybod amdany'n nhw.

Nid ydyn ni'n gofyn ichi, fel rhan o'r broses gofrestru hon, ddweud wrthon ni am unrhyw brofiadau neu ddiddordebau sydd gennych chi neu am eich sgiliau a'ch gwybodaeth, gan ein bod ni'n sylweddoli bod y rhain yn newid dros amser. Unwaith y byddwch chi wedi cofrestru, fe fyddwn ni'n rhoi gwybod ichi am yr holl gyfleoedd, ac os y bydd yna un yr hoffech chi gymryd rhan ynddo fe fydd gofyn ichi gyflwyno datganiad o ddiddordeb. Dyma fydd eich cyfle i ddweud sut mae'ch profiadau bywyd, eich diddordebau, eich sgiliau a'ch gwybodaeth yn cyfateb i'r meini prawf y mae'r ymchwilydd yn eu ceisio. Pan fyddwch chi'n anfon datganiad o ddiddordeb, fe fydd gofyn ichi gytuno i gytundeb cynnwys y cyhoedd sy'n manylu ar yr hyn y gallwch chi ddisgwyl i ni ei wneud a'r hyn rydyn ni'n disgwyl i chi ei wneud.

Beth sy'n digwydd nesaf

Fe fydd y tîm cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn derbyn eich cofrestriad



Fe fydd y tîm yn anfon pecyn croeso atoch chi i gadarnhau eich bod chi wedi cofrestru â'r gymuned gynhwysol